# Cronfa Ddata Ddigidol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

20 Tachwedd 2015

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol wedi/yn datblygu nifer o adnoddau cronfa ddata ddigidol i'w defnyddio gan y cyhoedd ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. Mae'r rhain wedi cynnwys/yn cynnwys Galw Iechyd Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Gyrfa Cymru, Byrddau Iechyd, y Ddraig Ffynci ac, yn fwy diweddar, yr SPOA. Nid yw hon yn rhestr lawn ac rwy'n gofyn am wybodaeth am unrhyw rai eraill hefyd.*

*Rwy'n gofyn am yr hyn a ganlyn o ran yr adnoddau yn y gronfa ddata ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.*

1. *Pryd ddechreuodd y gwaith ar y gronfa ddata?*
2. *Pryd ddaeth y prosiect i ben, neu pryd y mae fod dod i ben?*
3. *Yr asiantaeth arweiniol.*
4. *Y gyllideb wreiddiol a'r gwariant terfynol neu, yn achos y cronfeydd data sy'n cael eu gweithredu o hyd, y costau rhedeg blynyddol a phryd y disgwylir i'r prosiect ddod i ben?*
5. *Manylion unrhyw sefydliadau/asiantaethau trydydd parti sy'n cael eu hariannu i ddatblygu cronfa ddata?*
6. *Copi o Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru/Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymdrin â datblygu a rheoli cronfeydd data.*

Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani wedi cael ei darparu isod.

1. *Pryd ddechreuodd y gwaith ar y gronfa ddata?*

Yn ystod y cyfnod penodedig, ni chafodd unrhyw adnoddau cronfeydd data digidol eu datblygu'n benodol i'w defnyddio gan y cyhoedd ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol.

2. *Pryd ddaeth y prosiect i ben, neu pryd y mae fod dod i ben?*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@cynulliad.cymru

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Gweler yr ateb i gwestiwn 1.

3. *Yr asiantaeth arweiniol.*

Gweler yr ateb i gwestiwn 1.

4. *Y gyllideb wreiddiol a'r gwariant terfynol neu, yn achos y cronfeydd data sy'n cael eu gweithredu o hyd, y costau rhedeg blynyddol a phryd y disgwylir i'r prosiect ddod i ben?*

Gweler yr ateb i gwestiwn 1.

5. *Manylion unrhyw sefydliadau/asiantaethau trydydd parti sy'n cael eu hariannu i ddatblygu cronfa ddata?*

Gweler yr ateb i gwestiwn 1.

6. *Copi o Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru/Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymdrin â datblygu a rheoli cronfeydd data.*

Nid oes gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru strategaeth sy'n ymdrin â datblygu a rheoli cronfeydd data.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF